Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

# Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025

## Adroddiad ar lesiant a chynnydd




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025**'.

**Ebrill 2025**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 44**.




Lle mae'r ddogfen yn dweud **Deddf**, mae hyn yn meddwl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Ebost:** cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am yr adroddiad yma** .......... **4**

**Sut mae pethau'n mynd yng Nghymru** .......... **6**

**Ein cenedaethau** .......... **10**

Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .......... 10

Hinsawdd a Natur .......... 14

Iechyd a Llesiant .......... 20

Diwylliant a'r Gymraeg .......... 24

Economi Llesiant .......... 28

Bwyd .......... 34

**Arian ar gyfer y dyfodol** .......... **38**

**Cynllunio ar gyfer y dyfodol** .......... **39**

**Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan** .......... **40**

**Dysgu mwy** .......... **42**

**Geiriau anodd** .......... **44**


# Am yr adroddiad yma



Mae **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** yn gweithio i sicrhau bod y bobl sy'n byw yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol, yn ddiogel ac yn iach.



Mae'r adroddiad yma yn helpu pobl i wybod beth i'w wneud fel bod bywyd yn well i bawb.




Rydyn ni wedi seilio'r adroddiad yma ar ein 5 **cenhadaeth** o'n strategaeth **Cymru Can**.



**Cenadaethau** ydy'r 5 mater gwahanol rydyn ni'n canolbwyntio ein gwaith arnyn nhw tan 2030.



Mae'r adroddiad yma yn edrych ar sut mae pethau'n mynd yng Nghymru ar hyn o bryd.



Ac yna'n sôn am bob **cenhadaeth**, a beth sydd angen ei wneud nesaf i ddelio â'r heriau sy'n ein wynebu.



# Sut mae pethau'n mynd yng Nghymru



- Mae 230 mil o gartrefi yn gallu dioddef llifogydd yn y dyfodol. Mae'r nifer yma yn gallu dyblu mewn 100 mlynedd.



- Mae ansawdd aer yn well nag yr oedd yn y 1970au. Ond mae'n dal yn ddrwg i iechyd a natur pobl.



- Ychydig iawn o natur sydd gan Gymru ar ôl. Mae1 o bob 6 math o anifeiliaid a phlanhigion yn gallu diflannu.




- Yn 2025, mae llawer o bobl yn treulio'r 20 mlynedd diwethaf o'u bywydau yn sâl.



Mae gan lawer o bobl yng Nghymru **ddiabetes**, sydd yn gallu cael ei stopio trwy fwyta ac ymarfer corff.





Mae GIG Cymru yn gwario £1 allan o bob £10 sydd ganddyn nhw ar **ddiabetes**.



Mae **diabetes** yn salwch lle mae'r corff yn cael trafferth defnyddio siwgr yn iawn.



- Mae mwy o bobl dros bwysau neu'n **ordew**. Mae gan fwy o bobl broblemau iechyd meddwl.



Mae **gordewdra** yn meddwl cael gormod o fraster yn eich corff. Mae'n gallu achosi problemau iechyd fel **diabetes**, strôc neu arthritis.



- Mae gan Gymru fwy o bobl hŷn na rhannau eraill o'r DU. Mae tua 2 o bob 10 o bobl dros 65 oed.



- Roedd pobl yn teimlo'n llai hapus ac yn poeni mwy yn 2023 nag yn 2022.



- Mae tua 3 o bob 10 o blant yng Nghymru yn byw mewn **tlodi**.

Mae **tlodi** yn meddwl nad oes ganddynn nhw ddigon o arian i atebu eu hanghenion sylfaenol.



- Roedd 3 o bob 10 o bobl yn teimlo y bydden nhw'n gallu helpu i wneud penderfyniadau am lle maen nhw'n byw. Mae hyn yn well nag o'r blaen.



- Mae 7 o bob 10 o bobl yn gwneud gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Ond mae rhai pobl yn gwneud hyn yn fwy nag eraill. Mae hyn yn dibynnu ar eu oedran, iechyd, arian ac addysg.



- Fe wnaeth mwy o oedolion chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos yn 2023.



- Roedd gan tua 2 o bob 10 person yng Nghymru incwm isel rhwng 2021 a 2023, ar ôl talu am dai.

# Ein cenedaethau

## Gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




**Cenhadaeth: Gwneud yn siŵr bod y Ddeddf yn cael ei dilyn ac yn gweithio'n dda.**

**Beth rydyn ni wedi'i ddysgu:**



- Mae'r sector cyhoeddus yn cefnogi **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Maen nhw eisiau gwneud pethau da ar gyfer y dyfodol.



- Mae llai o bobl yn ymddiried mewn **cyrff cyhoeddus**. Fe fydd hyn yn gwaethygu os ydy pobl yn teimlo nad ydyn nhw'n gallu codi llais ac nad ydyn nhw wedi cael eu cynnwys.




Mae **cyrff cyhoeddus** yn sefydliadau sy'n rhedeg **gwasanaethau cyhoeddus** yng Nghymru. Er enghraifft, cynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, parciau cenedlaethol a gwasanaethau tân ac achub.



- Dydy **cyrff cyhoeddus** a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ddim bob amser yn defnyddio eu **hamcanion llesiant** i arwain eu gwaith.




Mae **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn grwpiau o bobl o wahanol sefydliadau ym mhob ardal o Gymru. Maen nhw'n dod â gwahanol **gyrff cyhoeddus** a sefydliadau at ei gilydd i weithio ar broblemau sydd yn cael eu rhannu.




**Amcanion llesiant** ydy'r nodau mae'n rhaid i **gyrff cyhoeddus** eu gosod i wneud Cymru'n fwy diogel ac iachach i bobl.




- Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu llawer o wahanol bartneriaethau a grwpiau heb gynllun hirdymor clir. Mae hyn yn meddwl nad ydy llawer o **Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** yn gweithio'n dda. Does ganddyn nhw ddim digon o help.



- Mae angen i arweinwyr a phobl sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru newid beth maen nhw'n ei wneud. Fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr bod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn gweithio ac yn gwella'r dyfodol.



## Beth fydd yn digwydd nesaf:



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych i weld os ydy'r **Ddeddf** yn gweithio'n dda. Fe ddylen nhw ofyn i bobl yng Nghymru beth maen nhw'n feddwl.



- Rhaid i Lywodraeth Cymru ei gwneud yn haws i bobl weithio gyda'i gilydd a chyflawni pethau.



- Rhaid i **gyrff cyhoeddus** hyfforddi eu gweithwyr i ddeall a defnyddio'r **Ddeddf** yn dda.



- Rhaid i **gyrff cyhoeddus** siarad â phobl yn fwy i adeiladu ymddiriedaeth a gwrando ar eu syniadau.

# Hinsawdd a Natur



**Cenhadaeth: Cefnogi holl gyrff cyhoeddus Cymru i gyflawni eu nodau sero net erbyn 2030.**



Mae **sero net** yn meddwl lleihau'r nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi yn yr amgylchedd.

**Rydyn ni'n gwneud hyn drwy:**



- Lleihau faint o nwyon niweidiol rydyn ni'n eu gadael i ffwrdd.



- Dod o hyd i ffyrdd o lanhau nwy niweidiol o'r aer.

## Beth rydyn ni wedi'i ddysgu:



- Mae angen i bawb weithio ar **newid yn yr hinsawdd** a helpu natur. Ond dydy hyn ddim yn amcanion pob **corff cyhoeddus**.



Mae **newid yn yr hinsawdd** yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, mae lleoedd yn mynd yn gynhesach, yn wlyb, neu'n sychach. Mae'r newidiadau yma yn achosi i bethau fel stormydd, llifogydd a thanau gwyllt waethygu.



- Mae'r nod o **sero net** erbyn 2030 wedi helpu. Ond mae llawer o **gyrff cyhoeddus** yn poeni na fyddan nhw'n cyrraedd y nod yma. Mae angen mwy o help.



- Dydy Cymru ddim wedi gosod nod i wella **adferiad natur**.

**Adferiad natur** ydyr'r broses o ailadeiladu a gwella natur.



- Dydy **cyrff cyhoeddus** ddim yn meddwl digon am **newid hinsawdd** a natur pan fyddan nhw'n gwneud penderfyniadau.



- Mae angen i gymunedau helpu i wneud penderfyniadau am yr hinsawdd a natur.




- Does dim digon o arian i gyrraedd nodau hinsawdd a natur.



## Beth ddylai ddigwydd nesaf:




- Dylai Llywodraeth Cymru wneud deddf newydd i helpu byd natur i wella erbyn 2026. Byddai hyn yn diogelu byd natur ac yn helpu mwy o anifeiliaid a phlanhigion i dyfu erbyn 2050.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud cynllun i ddefnyddio tir yn dda i dyfu bwyd, adeiladu cartrefi, a diogelu natur. Fe ddylen nhw hefyd wneud canllaw ar gyfer penderfyniadau lleol.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru helpu pobl i weithio gyda'i gilydd i lanhau a gwarchod afonydd.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru roi mwy o bŵer i Gyfoeth Naturiol Cymru i stopio **llygredd**.



**Llygredd** ydy pan fydd pethau drwg yn mynd i mewn i'r aer, dŵr neu dir. Er enghraifft, mygdarth ceir, sbwriel neu garthffosydd yn gwagio i afonydd neu'r môr.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru helpu **cyrff cyhoeddus** i ddod o hyd i arian i helpu natur a stopio **newid hinsawdd**.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ofyn i Awdurdod Cyllid Cymru ddefnyddio arian o ddirwyon am niweidio'r amgylchedd i helpu natur.



- Rhaid i **gyrff cyhoeddus** ddiogelu natur pan fyddan nhw'n rheoli tir, adeiladau a ffyrdd.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru, **cyrff cyhoeddus** a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** helpu prosiectau ynni lleol.



- Fe ddylai **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** edrych ar risgiau hinsawdd yn eu cymunedau bob 5 mlynedd. Mae'n rhaid i **gyrff cyhoeddus** roi beth maen nhw'n ei ddarganfod yn eu cynlluniau.



- Erbyn 2028, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru, **cyrff cyhoeddus** a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** wneud yn siŵr nad ydyn nhw'n prynu pethau sy'n niweidio coedwigoedd neu hawliau pobl.

# Iechyd a Llesiant



**Cenhadaeth: Cefnogi gwneud newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n cadw pobl yn iach. Canolbwyntio ar stopio problemau yn gynnar.**

## What we have learned:




- Mae gan **gyrff cyhoeddus** wahanol nodau iechyd. Dydyn nhw ddim yn defnyddio eu holl gyfleoedd i wella iechyd pawb.



- Mae iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn canolbwyntio ar ddatrys problemau brys. Dydy e ddim yn canolbwyntio ar iechyd tymor hir na stopio problemau iechyd cyn iddyn nhw ddechrau. Mae pobl yn cytuno bod stopio problemau yn bwysig, ond dydy **gwasanaethau cyhoeddus** ddim yn gwario digon o arian arno.



- Mae **cyrff cyhoeddus** yn dysgu gweithio gyda'i gilydd. Mae hyn yn helpu i ddilyn **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**. Ond dydyn nhw ddim yn gwneud digon. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach gwneud iechyd yn well i bawb.



- Mae anghydraddoldeb yng Nghymru yn gwaethygu. Mae pobl sy'n byw mewn **tlodi** yn fwy tebygol o gael iechyd gwael.



- Mae **systemau iechyd a gofal** yn dal i fod yn anodd eu deall. Dydy hyn ddim yn helpu pobl pan fyddan nhw'n sâl neu angen gofalu amdanyn nhw.



## Beth ddylai ddigwydd nesaf:




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio **Model Marmot** i helpu i wneud iechyd yn fwy cyfartal.

Mae **Model Marmot** yn dweud bod pethau fel lle mae pobl yn byw, faint o arian sydd ganddyn nhw, a'u swyddi i gyd yn effeithio ar eu hiechyd. Mae'n dweud y dylen ni wneud pethau'n fwy teg fel bod pawb yn gallu bod yn iach.



- Fe ddylai pob sefydliad sector cyhoeddus ganolbwyntio ar stopio problemau iechyd cyn iddyn nhw ddechrau.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud cynllun i stopio mwy o bobl rhag bod yn rhy drwm mewn 5 mlynedd. Ac i leihau nifer y bobl dros bwysau mewn 10 mlynedd.



- Fe ddylai **cyrff cyhoeddus** a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** weithio gyda'i gilydd i helpu pobl i gadw'n iach a gwneud pethau'n fwy teg.



- Fe ddylai **cyrff cyhoeddus** a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** edrych am yr anghydraddoldebau iechyd mwyaf a gwneud cynlluniau i'w trwsio.



# Diwylliant a'r Gymraeg



**Cenhadaeth: Gwneud yn siŵr bod cyrff cyhoeddus yn deall pwysigrwydd diwylliant.**



Ein **diwylliant** ydy ein traddodiadau, ymddygiadau, hanes ac iaith rydyn ni'n eu rhannu.

## Beth rydyn ni wedi'i ddysgu:



- Arian ar gyfer **diwylliant** yn aml ydy'r peth cyntaf mae'r llywodraeth yn ei dorri wrth edrych ar wariant. Ond mae **diwylliant** yn helpu i stopio pobl rhag mynd yn sâl, yn helpu'r **economi** a natur, ac yn gwneud pethau'n fwy cyfartal.



Yr **economi** ydy'r ffordd mae pobl yn gwario arian a'r ffordd mae pobl yn gwneud arian.



- Rhaid i **ddiwylliant** a'r Gymraeg fod yn bwysig i bob **corff cyhoeddus** a **gwasanaethau cyhoeddus**. Fe fydd hyn yn eu helpu i dyfu. Ond dyd hyn ddim yn digwydd eto.



- Dydy **cyrff cyhoeddus** ddim yn defnyddio **diwylliant** a'r celfyddydau yn ddigonol i helpu cymunedau.



- Mae pobl sy'n cael eu gadael allan yn ei chael hi'n anodd cael llesiant hirdymor. Mae angen i **gyrff cyhoeddus** geisio'n fwy caled i greu cymunedau lle mae pawb yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys.



## Beth ddylai ddigwydd nesaf




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud deddf newydd i ddiogelu **diwylliant** yng Nghymru.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru roi'r hawl i gymunedau brynu adeiladau a thir lleol maen nhw'n poeni amdano.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith yn y llywodraeth i ofalu am ddiwylliant, celfyddydau a chwaraeon.




- Fe ddylai pob **corff cyhoeddus** helpu staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.



- Fe ddylai **cyrff cyhoeddus** a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ddilyn Siarter Creu Lleoedd Cymru. Cynllun ydy hwn i wneud lleoedd yn well i fyw ynddyn nhw.



- Fe ddylai **cyrff cyhoeddus** wneud cynllun gyda gweithwyr a'r sector gwirfoddol i helpu pobl i wirfoddoli.



# Economi Llesiant



**Cenhadaeth: Gwneud yn siŵr bod gan Gymru economi sy'n rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf.**

**Beth rydyn ni wedi'i ddysgu:**



- Mae angen i gynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer yr **economi** a chynlluniau lleol gyd-fynd â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.



- Mae angen i **gyrff cyhoeddus** wneud talu'r **Cyflog Byw Go Iawn** a rhoi o leiaf 16 awr o waith yr wythnos i weithwyr yn brif flaenoriaeth.



Mae'r **Cyflog Byw Go Iawn** yn fwy na'r Cyflog Byw safonol. Mae'n swm teg o arian i bobl fyw arno.



- Mae’r ffordd mae arweinwyr yng Nghymru yn meddwl am yr **economi** yn gwella. Trwy helpu **mentrau cymdeithasol**, mae mwy o gymunedau yn gallu cadw arian yn lleol.




Mae **mentrau cymdeithasol** yn fusnesau sy’n helpu pobl neu’r blaned yn lle gwneud arian yn unig.



- Mae Cymru yn gallu creu mwy o **swyddi gwyrdd**, ond mae angen i ni weithio ar y sgiliau mae pobl eu hangen.




Mae **swyddi gwyrdd** yn swyddi sy’n helpu i ailadeiladu neu amddiffyn yr amgylchedd.



- Mae Cymru’n defnyddio adnoddau fel coed, dŵr ac ynni’n rhy gyflym. Mae hyn yn meddwl na fydd gennym ni ddigon ar gyfer y dyfodol. Mae Cymru’n gallu gwneud mwy o swyddi wrth drwsio ac ailddefnyddio pethau.



- Dydy Cymru ddim yn gallu cyrraedd ei nodau llesiant trwy gyrff cyhoeddus yn unig. Rhaid i fusnes newid hefyd.



- Nid yw **cyrff cyhoeddus** yng Nghymru yn barod i ddefnyddio **deallusrwydd artiffisial** yn dda nac i ddelio â phroblemau mae’n gallu eu hachosi.




Mae **deallusrwydd artiffisial** yn gyfrifiaduron sy’n gallu meddwl a datrys problemau fel pobl.

## Beth ddylai ddigwydd nesaf:



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru helpu busnesau i dalu'r **Cyflog Byw Go Iawn**. Mae hyn yn fwy na'r Cyflog Byw safonol. Mae'n swm teg o arian i roi digon o arian i bobl fyw arno.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych i weld bod busnesau maen nhw'n eu helpu yn dilyn rheolau gwaith teg. Gan gynnwys talu'r **Cyflog Byw Go Iawn**.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud y **sector busnes cymdeithasol** ddwywaith mor fawr erbyn 2035.



Mae'r **sector busnes cymdeithasol** yn fusnesau sy'n helpu pobl a chymunedau.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud Hwb Datblygu Cydweithredol i helpu **busnesau cydweithredol** i dyfu.



Mae **busnesau cydweithredol** yn fusnesau sy’n gweithio gyda’i gilydd er lles pawb.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod gan bobl y sgiliau i helpu i greu **economi** werdd a theg.




- Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych ar sut mae **deallusrwydd artiffisial** yn effeithio ar **gyrff cyhoeddus** nawr ac yn y dyfodol. Fe ddylen nhw wneud cynllun i’w ddefnyddio yn y ffordd orau.




- Rhaid i Lywodraeth Cymru, **cyrff cyhoeddus** a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** ddefnyddio **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** ym mhob cynllun economaidd.





- Erbyn 2027, mae'n rhaid i bob **corff cyhoeddus** gynllunio i dalu'r **Cyflog Byw Go Iawn**.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru a **chyrff cyhoeddus** wneud yn siŵr bod gan bob cymuned le i drwsio ac ailddefnyddio pethau erbyn 2035.



# Bwyd




**Cenhadaeth: Gwneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn gallu cael bwyd lleol, iach, maen nhw'n gallu ei fforddio.**

## Beth rydyn ni wedi'i ddysgu:



- Mae pobl yng Nghymru eisiau i fwy gael ei wneud fel eu bod nhw'n gallu cael bwyd lleol, iach a fforddiadwy.




- Does gan Gymru ddim cynllun bwyd hirdymor. Mae gweddill y Deyrnas Unedig yn gwneud hynny.



- Dydy bwyd a bwyta'n iach ddim yn y rhan fwyaf o gynlluniau **cyrff cyhoeddus**.



- Dydy pawb yng Nghymru ddim yn gallu cael bwyd lleol, rhad, iach. Mae **cyrff cyhoeddus** yn gallu helpu drwy newid sut maen nhw'n cynllunio, hysbysebu, prynu a dosbarthu bwyd.



## Beth ddylai ddigwydd nesaf:



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud cynllun i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu prynu a chael bwyd iach.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru roi prydau ysgol am ddim i bob plentyn hyd at 16 oed.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru ddysgu pob plentyn am fwyta'n iach.



- Fe ddylai pob cyngor weithio gyda Phartneriaethau Bwyd Lleol a **Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** i wneud cynllun bwyd. Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵru bod y Strategaeth Bwyd Cymunedol yn rhoi cymorth hirdymor.



- Fe ddylai Llywodraeth Cymru a **chyrff cyhoeddus** wneud yn siŵr bod prydau ysgol yn cynnwys o leiaf 2 dogn o lysiau. Fe ddylai'r llysiau gael eu tyfu'n lleol ac ar yr adeg iawn o'r flwyddyn. Fe ddylai cynghorau ymuno â'r **rhaglen Llysiau Cymreig mewn Ysgolion**.



- Fe ddylai **cyrff cyhoeddus** gael llai o fwyd afiach mewn llefydd fel ysgolion, ysbytai a chartrefi gofal. Fe ddylen nhw roi'r gorau i hysbysebu bwyd afiach.




- Dylai Llywodraeth Cymru a **chyrff cyhoeddus**, gan gynnwys ein gwasanaethau gofal iechyd, roi talebau i deuluoedd incwm isel ar gyfer ffrwythau a llysiau.




# Arian ar gyfer y dyfodol



Fe ddylai Llywodraeth Cymru wario mwy o arian ar stopio problemau cyn iddyn nhw ddigwydd.



Fe ddylai Llywodraeth Cymru gynllunio sut maen nhw'n gwario arian yn gynharach.  A dweud wrth **gyrff cyhoeddus** faint o arian fyddan nhw yn ei gael yn gynharach.




Rhaid i **gyrff cyhoeddus** gysylltu eu gwariant â nodau lles cenedlaethol y Ddeddf.

# Cynllunio ar gyfer y dyfodol




Fe ddylai Llywodraeth Cymru wneud cynllun ar gyfer dyfodol pobl sy'n gweithio yn sector cyhoeddus Cymru.



Fe ddylai **cyrff cyhoeddus** gynllunio ar gyfer y tymor hir a chynnwys cymunedau.



Fe ddylai pob **corff cyhoeddus** fod â **Hyrwyddwr y Dyfodol**. Fe fydd y person yma yn canolbwyntio ar feddwl yn y tymor hir ac yn rhan o'n Hwb Dyfodol - grŵp o bobl sydd â diddordeb mewn meddwl am y dyfodol.

# Sut rydych chi'n gallu cymryd rhan



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** ar gyfer pawb yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau helpu **cyrff cyhoeddus** i ddefnyddio'r ddeddf yma yn y ffordd orau.





Os ydych chi eisiau cymryd rhan, rydych chi'n gallu:

- Ymuno â sesiwn hyfforddi am ddim i ddysgu mwy am y **Ddeddf**.
- Ymuno â **Hwb Dyfodol**, ein hyb dyfodol.
- Dysgu am ein **Hacademi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol**.
- Cofrestru ar gyfer ein cylchlythyr.



Os ydych chi'n gweithio mewn **corff cyhoeddus**, rydych chi'n gallu:




- Darganfod nodau eich sefydliad a meddwl sut mae eich gwaith yn gallu helpu.




- Llenwi ein Gwiriwr Taith Ffyrdd o Weithio.





# Dysgu mwy



**Ebost**: cysylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru



**Ffôn**: 02921 677 400



**Cyfeiriad:**

Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Tramshed Tech

Stryd Pendyris

Caerdydd

CF11 6BH



**Dewch o hyd i ni ar-lein:**




**Gwefan**: [cenedlaethaurdyfodol.cymru](cenedlaethaurdyfodol.cymru)

[**LinkedIn**]()

[**Instagram**]()

[**Bluesky**]()

# Geiriau anodd

### Adferiad natur

Adferiad natur ydyr'r broses o ailadeiladu a gwella natur.

### Amcanion llesiant

Amcanion llesiant ydy'r nodau mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eu gosod i wneud Cymru'n fwy diogel ac iachach i bobl.

### Busnesau cydweithredol

Mae busnesau cydweithredol yn fusnesau sy'n gweithio gyda'i gilydd er lles pawb.

### Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn grwpiau o bobl o wahanol sefydliadau ym mhob ardal o Gymru. Maen nhw'n dod â gwahanol gyrff a sefydliadau cyhoeddus at ei gilydd i weithio ar broblemau a rennir.

### Cenadaethau

Cenadaethau ydy'r 5 mater gwahanol rydyn ni'n canolbwyntio ein gwaith arnyn nhw tan 2030.

### Cyrff cyhoeddus

Mae cyrff cyhoeddus yn sefydliadau sy'n rhedeg gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, cynghorau lleol, gwasanaethau iechyd, parciau cenedlaethol a gwasanaethau tân ac achub.

### Deallusrwydd artiffisial

Mae deallusrwydd artiffisial yn gyfrifiaduron sy'n gallu meddwl a datrys problemau fel pobl.

### Diabetes

Mae diabetes yn salwch lle mae'r corff yn cael trafferth defnyddio siwgr yn iawn.

### Diwylliant

Ein diwylliant ydy ein traddodiadau, ein hymddygiad, ein hanes a'n hiaith.

### Economi

Economi ydy'r ffordd mae gwlad yn gwneud ac yn gwario arian.

### Gordewdra

Mae gordewdra yn meddwl cael gormod o fraster yn eich corff. Mae'n gallu achosi problemau iechyd fel diabetes, strôc neu arthritis.

### Gwasanaeth cyhoeddus

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn wasanaethau mae cyrff cyhoeddus yn eu darparu. Er enghraifft, cynghorau lleol, y GIG, yr heddlu a thân ac achub.

### Llygredd

Llygredd ydy pan fydd pethau drwg yn mynd i'r awyr, y dŵr, neu'r tir. Er enghraifft, mwg ceir, sbwriel neu garthffosydd yn gwagio i afonydd neu'r môr.

## Mentrau cymdeithasol

Mae mentrau cymdeithasol yn fusnesau sy'n helpu pobl neu'r blaned yn lle gwneud arian yn unig.

## Model Marmot

Mae Model Marmot yn dweud bod pethau fel lle mae pobl yn byw, faint o arian sydd ganddyn nhw, a'u swyddi i gyd yn effeithio ar eu hiechyd. Mae'n dweud y dylen ni wneud pethau'n fwy teg fel bod pawb yn gallu bod yn iach.

## Newid hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn newidiadau mawr yn y tywydd. Er enghraifft, mae lleoedd yn mynd yn gynhesach, yn wlyb, neu'n sychach. Mae'r newidiadau yma yn achosi i bethau fel stormydd, llifogydd a thanau gwyllt waethygu.

## Sector busnes cymdeithasol

Mae'r sector busnes cymdeithasol yn fusnesau sy'n helpu pobl a chymunedau.

## Sero net

Mae sero net yn meddwl lleihau'r nwyon niweidiol rydyn ni'n eu rhoi yn yr amgylchedd.

## Tlodi

Mae tlodi yn meddwl nad oes ganddyn nhw ddigon o arian i ateb eu hanghenion sylfaenol.